

## Casgliad Genhadaeth Capel Coch

Heddiw yw'r cyfle olaf i gyfrannu at y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Diolch am bob cyfraniad a gafwyd.

## Cyfarfod Gweddi

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Cynllun Efe yng Nghaeathro am 7.00 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon.

Bydd y cyfarfod yn nhŷ Andrew, sef 'Cartref'. Mae'n ddigon hawdd dod o hyd i'r tŷ gan ei foid ar ochr y lôn, y drws nesaf i'r dafarn yn y pentref.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Lun, Mawrth 31:** Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Nos Fercher, Ebrill 2:** Cyfarfod Gweddi Efe yn Cartref, Caeathro am 7.00 o'r gloch.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Mawrth 30

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr Charles Jones

#### Ebrill 6

9.30 a.m. - Y Gweinidog

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Ebrill 13

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

#### Ebrill 20

Cyfarfod Pregethu Cefnywaun

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

**Dydd Sul, Ebrill 6:** Gwasanaethir am 9.30 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog, a gweinyddir y Cymundeb yn oedfa'r hwyr. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Lun, Mawrth 31:** Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Nos Fercher, Ebrill 2:** Cyfarfod Gweddi Efe yn Cartref, Caeathro am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Ebrill 6:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli.

### REHOBOTH

**Nos Lun, Mawrth 31:** Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Ebrill 6:** Ni fydd oedfa.

## Y mis nesaf - Llanberis

### Mawrth 30

10.00 a.m. - Mr Dylan Rhys

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa

yng ngofal rhai o'r aelodau

### Ebrill 6

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

### Ebrill 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

### Ebrill 20

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams



# Gronfa

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 585 – Dydd Sul, 30 Mawrth, 2014

## Carawys

Maen nhw'n deud eich bod yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd. Dowch i mi felly rannu â chi'r hyn a ddysgais i ddoe am y Grawys, y cyfnod o chwe wythnos rhwng Dydd Mercher Lludw a Sul y Pasg. Gwyddoch cystal â mi na roddodd yr eglwys anghydfurfiol (neu bobl y capel) yr un sylw i'r Grawys ag a roddwyd gan Eglwyswyr. Y rheswm am hynny oedd bod yr anghydfurfiwyr o'r cychwyn wedi rhoi mwy o bwys ar bethau fel defosiwn ac ymgysgriad personol nag ar ddefodau a gwyliau traddodiadol yr Eglwys Gristnogol. Ymateb oedden nhw i'r perygl o wneud Cristnogaeth yn fater o drefn ac arferiad yn hytrach na pherthynas fywiol â Duw trwy ei Fab Iesu Grist.

Erbyn hyn, mae llawer o gapeli'n rhoi sylw i'r Grawys, ac mae pob math o lyfrau a myfyrdodau yn ein papurau a'n cylchgronau Cristnogol sy'n ein helpu i wneud hynny. Ac felly, erbyn hyn mae yna lawer o gapelwyr sy'n penderfynu rhoi pethau arbennig heibio dros gyfnod y Grawys. Fel arfer, ymwrthod â bwyta rhyw fwydydd arbennig a wneir, fel cacen neu siocled.

Y cyfnod a dreuliodd Iesu Grist yn yr anialwch yn ymptydio cyn cychwyn ei weinidogaeth gyhoeddus yw sail y Grawys. Am ddeugain niwrnod bu yno'n ymptydio ac yn gweddio gan geisio nerth Duw. Mae'r Grawys, felly, yn gyfle i Gristnogion ymwadu â'r hunan a cheisio cymorth Duw. Nid troi cefn ar Cadbury a Nestle a Thornton a wneir felly yn ystod yr wythnosau hyn

cyn y Pasg ond troi cefn arnom ein hunain, a'n dymuniadau ni, a cheisio Duw a'i ewyllys ef. Fe all ymwadu â'r gacen hufen wneud lles i'r pwysau, ond nid dyna brif nod y Grawys ond dyfnhau'r berthynas â Duw.

Roeddwn i'n gyfarwydd â hyn oll o'r blaen. Ond mi sylweddolais i ddoe nad oeddwn wedi gwneud fy syms ynglŷn â'r Grawys, oherwydd mae yna 46 o ddyddiau o ddydd Mercher Lludw hyd Sul y Pasg. Pam 46? Pam nad 40 gan mai deugain niwrnod a dreuliodd Iesu yn yr anialwch?

Mae'r ateb yn syml. Nid yw'r 6 Sul yn ystod y Grawys yn cael eu cyfrif. (Bosib iawn eich bod chi'n gwybod hynny ers talwm, ond doeddwn i ddim.) Dydd o dathlu yw'r Sul i'r Cristion – dathlu atgyfodiad Iesu Grist. Ac nid yw ymptydio yn gweddu i'r dathlu hwnnw. (Ond rhaid cyfaddef na wn i a yw hynny'n rhoi hawl i chi fwyta darn bach o siocled heddiw er eich bod yn cadw'r Grawys!)

Gyda llaw, mi ddysgais rywbeth arall ddoe am y gair 'Grawys' ei hun. Mae'n tarddu o'r gair Lladin *quadagesima* sy'n golygu 'deugeinfed'. 'Carawys' oedd yr hen ffurf Gymraeg o'r gair 'Grawys'.

Ond beth bynnag a wnawn ni o'r Grawys, gallwn gydnabod o'r newydd heddiw ein hangen am faddeuant a cheisio gras a chymorth i wir ymwadu â ni ein hunain a dilyn Iesu.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Mr Charles Jones, Llanrug. Diolch iddo am ei gymorth a chroeso cynnes iddo unwaith eto.

Gwasanaethir yn yr oedfa am 10.00 o'r gloch yn Capel Coch gan Mr Dylan Rhys, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. A bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad rhai o'r aelodau.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

## Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Mawrth 31.

Mae'r blaenoriaid a'r diaconiaid a holl swyddogion yr eglwysi yn aelodau o'r pwyllgor hwn.

Gobeithio bydd modd i bob eglwys gael ei chynrychioli yn y cyfarfod hwn.

## Cymdeithas Undebol Deiniolen

Yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen nos Lun ddiwethaf, 'Hanner Munud' oedd testun y sgwrs a roddais yn bwrw golwg nôl ar rai o'r straeon a fu'n sail i golofnau 'Un funud fach' yn Eco'r Wyddfa ers i mi gychwyn eu sgwennu 22 o flynyddoedd yn ôl.

Diolchwyd am y nodon gan Mr John Ll Williams.

Y Swper Blynyddol fydd y cyfarfod nesaf, yng Nghlwb Golff Caernarfon, nos Lun, Ebrill 28.

## CIC

Cynhaliwyd cyfarfod CIC yn Capel Coch echnos, a diolch yn fawr iawn i Andrew, Gwenno a Dafydd am arwain y cyfan eto.

## Cymdeithas Undebol Llanberis

Cynhelir Swper Blynyddol Cymdeithas Undebol Llanberis yng Ngwesty'r Dolbadarn, nos Fawrth, Ebrill 8.

Y gŵr gwadd fydd y Canon Idris Thomas, Deiniolen. Edrychwn ymlaen at ei groesawu ef a Mrs Thomas i'r swper.

## Un o Gant ac Un o Fil

Fe gofiwch i ni wneud yr Apêl hon am gymorth i Gynllun Efe yr adeg yma'r llynedd. Mae blwyddyn wedi mynd heibio ac felly dyma gyflwyno'r apel am eleni eto.

I ddechrau, diolch i bawb a gyfrannodd y llynedd. Mae rhai ohonoch wedi trefnu i wneud eich cyfraniadau trwy'r banc yn fisol neu'n flynyddol, ac yn amlwg yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol.

Byddwn yn ddiolchgar os gall y rhai ohonoch a gefnogodd Apêl Un o Fil neu Un o Gant y llynedd wneud yr un peth eto. I'ch atgoffa, felly, yr ydym yn gofyn i bobl gyfrannu £20 y flwyddyn fel rhan o gynllun 'UNO FIL' neu £100 y flwyddyn at gynllun 'UN O GANT'.

Os cawn ni gefnogaeth dda yn eglwysi'r ardal i'r apel hon bydd modd i ni barhau i gynnal swydd ein gweithiwr ieuentid ymhellach na'r flwyddyn bresennol a ddaw i ben ddiwedd Medi eleni.

Mae ffurflenni i'w cael yn y capeli, a gallwch roi eich cyfraniad i'r Gweinidog os gwelwch yn dda. Bydd yr Apêl hon yn cael ei gwneud dros y mis nesaf.

Gobeithio'n fawr y cawn eich cefnogaeth eto. Roedd yr ymateb y llynedd yn hael ac yn galondid mawr i ni sy'n arwain gwaith Cynllun Efe. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Gweinidog.

## Pasg Efe

Cynhelir Pasg Efe eleni eto, ac edrychwn ymlaen at gyflwyno neges y Pasg i blant yr ardal (Blwyddyn 3 hyd Flwyddyn 6).

Yn Ysgol Gynradd Llanrug y cynhelir y diwrnod, ddydd Llun, Ebrill 14, gan ddechrau am 10.00 o'r gloch y bore a gorffen ar ôl cinio am 1.30 o'r gloch. Caiff y plant wahoddiad trwy'r ysgolion cynradd cyn hynny.

## Cwrs Coleg y Bala

Bydd cyfle i blant ysgolion Sul Llanberis a Deiniolen fynd i Goleg y Bala ar ein cwrs penwythnos blynyddol o nos Wener, Mai 16 hyd ddydd Sul, Mai 18.

Bydd hwn ar gyfer plant 8–12 oed (Blwyddyn 3–6).

## Cadeiriau

Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd at y cadeiriau newydd a archebwyd i Capel Coch. Mae'r cadeiriau'n costio £80 yr un, ac yr ydym yn ddiolchgar am bob rhodd at y gost. Rydym yn nodi'r £80 yn unig am fod rhai wedi gofyn faint mae'r cadeiriau'n gostio.

## Meinciau Capel Coch

Cofiwch fod angen cyflwyno ceisiadau ar bapur i brynu un o feinciau'r festri erbyn **nos yfory, Mawrth 31**.

Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad a sawl mainc yr hoffech eu prynu os gwelwch yn dda. Bydd rhaid cyfyngu pawb i un fainc os bydd galw mawr amdanynt. Y pris fydd £30 y fainc. Bydd angen i bawb a fydd yn prynu mainc drefnu i'w symud o'r festri eu hunain.